# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 21AIN MEHEFIN 2017 AM 2.00 P.M.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd D.V. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C.J. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P.A.Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) a Mrs E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Burns (Prif Weithredwr Dros Dro), C. Harrhy (Cyfarwyddwraig Corfforaethol - Cymunedau), N. Scammell (Cyfarwyddwraig Gwasanaethau Corfforaethol Dros Dro a Swyddog Adran 151) a D.Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd yn Bresennol:

D. Harteveld (GCA), K. Bevan (GCA), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), J. Carpenter (Treth y Cyngor a Rheolwr Ardrethi Annomestig Busnes), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd), A. Rees (Uwch Swyddog Polisi), C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau dros absenoldeb

### 2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd S. Morgan ddatgan diddordeb yn Eitem Agenda 5 (Cyllid Grant Rhyddhad Ardrethi Annomestig Busnes- LlC Cynllun ‘Rhyddhad Ardrethi’r Stryd Fawr’ 2017/18). Mae manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem berthnasol.

### 3. CABINET – 7FED MEHEFIN 2017

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Mehefin 2017 (rhifau cofnod. 1-7) a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**4. CYNLLUN BUSNES GWASANAETH CYFLAWNI ADDYSG (GCA) 2017-2020**

Fe wnaeth yr adroddiad, a gafodd ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu Addysg Gydol Oes ar y 7fed Mehefin 2017, ddarparu'r Cabinet gyda diweddariad ar Gynllun Busnes Gwasanaeth Cyflawniad Addysg (GCA) 2017-2020 ac Ychwanegiad penodol Caerffili (Ebrill 1af 2017 – Mawrth 31ain 2018). Mae'n ofynnol i GCA gyflwyno eu Cynllun Busnes i Lywodraeth Cymru ac mae'n ofynnol i'r Cabinet ei arnodi.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu Cynllun Busnes GCA De Ddwyrain Cymru 2017-2020, sy'n gosod y blaenoriaethau, rhaglennu a'r canlyniadau i gael eu cyflawni gan y GCA ar ran Consortiwm De Ddwyrain Cymru. Mae'r adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar ganlyniadau disgwyliedig yng Nghaerffili a bydd yr holl raglenni penodol a fydd yn cael eu gweithredu yn ystod 2017-2018, a gynhwysir yn Ychwanegiad yr Awdurdod Lleol (ALl), yn atodol?i'r adroddiad.

Diolchodd Aelodau'r Cabinet i'r Swyddogion am yr adroddiad a chafwyd trafodaeth. Gan nodi'r tablau o fewn y Cynllun Busnes, ceisiodd Aelod am eglurhad ar y targedau, gyda rhai yn cael eu lleihau o flynyddoedd blaenorol a gofynnwyd fod drafftiau yn y dyfodol yn manylu o amgylch y broses. Derbyniodd y Swyddogion yr argymhellion ac fe wnaethant amlygu fod,angen cael cynllun mwy syml. Yn ychwanegol at hyn, nodwyd y byddai rhai targedau yn cael eu gosod yn rhanbarthol, ac eraill, er enghraifft, targedau ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a 3 yn cael eu gosod yn dilyn asesiad athro/athrawon. Dilynwyd hyn gan drafodaeth o amgylch y broses o osodtargedau a nododd Cabinet, tra bod Cyrff Llywodraethu ysgolion yn arwyddo'r targedau, bod gan y Cabinet bwerau i osod targedau newydd, os ydynt yn teimlo fod hynny'n angenrheidiol.

Fe wnaeth Aelod ofyn am wybodaeth ychwanegol ar y cymorth a gynigir i'r Ysgol a'r niferoedd sy'n derbyn lle. Nodwyd fod nifer o ddulliau yn cael eu gwneudyn dibynnu ar yr angen. Mae Pecyn Cymorth Sutton yn un dull, sy'n darparu deunyddiau cymorth ac ymrwymiadau allweddol i ddysgwyr o gefndir dan anfantais. Yn ychwanegol, nodwyd fod amrywiannau wrth ystyried Prydau Ysgol Am Ddim, gyda gwahaniaethau penodol yng Nghyfnod Allweddol 4. Cytunodd y Swyddogion bod hyn yn faes o her a bod angen cau'r bwlch, gweithio gydag ysgolion a bod Cyrff Llywodraethu i gael eu cynnal er mwyn ystyried y modd y mae cyllid ysgolion yn cael ei ddyrannu i gau'r bwlch.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellionynyr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) bod y blaenoriaethau a gynhwysir o fewn y Cynllun Busnes a'i Ychwanegiad ac effaith y cynllun ar y cymunedau o fewn yr ardal awdurdod lleol, yn cael eu nodi;

(ii) bod cynnwys Cynllun Busnes GCA yn cael ei gadarnhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**5. CYLLID GRANT ANNOMESTIG CENEDLAETHOL CYFRADD RHYDDHAD – CYNLLYN RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR 2017/18 LLC**

Fe wnaeth y Cynghorydd S. Morgan ddatgan diddordeb yn yr eitem hon fel perchennog eiddo a gadawodd y cyfarfod yn ystod ei ystyriaeth.

Mae Llywodraeth (LlC) Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi cyfradd newydd annomestig dros dro yn genedlaethol, fe'i gelwir hefyd yn ardrethi busnes, 'Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-2018 yn unig. Bydd y rhyddhad a rhoddwyd gan yr Awdurdod o dan y cynllun newydd i fod i gael ei ad-dalu gan LlC drwy'r grant a therfyn arian parod ond, cyn bydd unrhyw ryddhad yn cael eu dyfarnu, rhaid i'r Awdurdod ystyried a mabwysiadu'r cynllun newydd.

Nododd Cabinet, er mwyn cymhwyso ar gyfer y gyfradd rhyddhau, mae'r cyfarwyddyd yn nodi y bydd yn benderfyniad yr awdurdodau lleol sut maent yn dymuno gweinyddu'r Cynllun. Mae LlC yn credu y gallai rhyddhad ardrethi gael eu cymhwyso yn uniongyrchol i filiau trethdalwyr cymwys'; fodd bynnag, os na fydd y llwybr hwn yn cael ei ddilyn, mae'r canllawiau yn nodi swm sylweddol o destun y mae'n ei argymell dylai gael eu hymgorffori mewn llythyr dyfarnu / ffurflen yn nodi'r goblygiadau Cymorth Gwladwriaethol. Ar ben hynny, os bydd trethdalwr cymwys yn credu nad yw ef neu hi yn gymwys i dderbyn y rhyddhad, rhaid i ddatganiad o fewn y llythyr / ffurflen gael ei llofnodi a'i dychwelyd i'r awdurdod. O ganlyniad, byddai cynllun sy'n seiliedig ar gais yn sicrhau byddai defnydd presennol yr eiddo yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig gan y trethdalwr (pwynt 16 o'r canllawiau LlC sy'n cyfeirio at 'i brofi ar ddefnydd yn hytrach na galwedigaeth'); yn ail, allai datganiad ynghylch Cymorth Gwladwriaethol gael eu hymgorffori yn y ffurflen gais ac, yn drydydd, dibynnu ar geisiadau yn hytrach na dyfarnu rhyddhad yn uniongyrchol gall leihau siawns y dylai trethdalwyr a allai fod yn gymwys golli allan ar y cynllun.

Fe wnaeth yr Aelodau ddiolch i'r Swyddog am yr adroddiad a dilynwyd hyn gan drafodaeth, nodwyd nad oedd y ffurflen gais wedi cael ei ddarparu gyda'r adroddiad. Esboniodd Swyddogion y bydd y ffurflen yn ailadrodd y Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu er mwyn symleiddio'r ffurflenni sydd ar gael a'i wneud mor hawdd â phosibl i'r defnyddiwr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) yn amodol ar y cynnig grant terfynol a dderbynnir, mae'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr' 2017-2018 yn cael ei fabwysiadu ar unwaith yn unol â'r arweiniad a osodwyd allan yn Atodiad 1 o'r adroddiad a'r darparwyr o adran 47(1)(a) ac adran 47 (3) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988. Bydd y Pennaeth Cyllid Corfforaethol dros dro yn defnyddio ei bwerau i wobrwyo'r rhyddhad ;

(ii) mae'r cynnig i ofyn am ffurflen gais i gael ei gwblhau yn llawn gan bob drethdalwr cymwys ar gyfer pob eiddo cymwys i gael ei fabwysiadu.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFNOAU'R IAITH GYMRAEG 2014-2015

Fe wnaeth adroddiad hysbysu'r Cabinet am y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-2017 yn erbyn pedwar maes penodol o waith iaith Gymraeg, fel sy'n ofynnol o dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithredu'r Safonau Iaith Gymraeg.

Nodwyd bod gan y Cyngor Ddyletswydd Statudol i gynhyrchu adroddiad monitro blynyddol ar weithredu'r Iaith Gymraeg a gyhoeddwyd o dan y ddeddfwriaeth bresennol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar-lein erbyn y dyddiad cau sef 30 Mehefin 2017 fel sy'n ofynnol gan Safon Iaith Gymraeg 158.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad blynyddol yn dangos fod y nifer o gwynion a dderbyniwyd wedi lleihau. Serch hynny, mae 5 archwiliad ffurfiol Comisiynydd yr Iaith Gymraeg wedi cael ei dderbyn. Roedd yr adroddiad yn manylu'r cwynion a nodwyd nad oedd 2 ohonynt yn ddilys, mae 2 wedi cael eu derbyn fel rhai dilys ac 1 yn rhannol ddilys. Mae cyfanswm o 304

o swyddi wedi cael eu categoreiddio fel Cymraeg dymunol, 4 o'r rheini wedi cael eu rhoi yn Gymraeg hanfodol ac mae ffigyrau hyfforddiant yn aros yr un peth, gyda 59 o ddysgwyr.

Mynegodd y Cabinet eu diolch dwysaf i'r swyddogion am waith rhagorol sydd wedi'i mewnbynu er mwyn gweithredu a chynnal y safonau a darparu'r adroddiad cadarnhaol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, i nodi yr adroddiad a chyhoeddi'r Adroddiad Blynyddol 2016-2017 fel cofnod o gynnydd tuag at, a chydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg berthnasol yn cael eu cymeradwyo.

**7. ADRODDIAD ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR WASANAETHAU GORFODI CYFRAITH BWYD CAERFFILI**

Mae'r adroddiad, a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 21ain Mawrth 2017, a gyflwynwyd i'r Aelodau gyda'r canfyddiadau o archwiliad dan arweiniad yr Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA), mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Mae'r rhain yn cynnwys diogelwch bwyd, safonau bwyd a swyddogaethau rheoli clefyd trosglwyddadwy o fewn Diogelwch y Cyhoedd.

Fe wnaeth yr archwiliad, a gafodd ei gynnal ym mis Ionawr 2016, arholi trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer trosglwyddiad rheoli bwyd swyddogol. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ar 21ain Chwefror 2017.

Nododd y Cabinet y chwe chryfder allweddol, sy'n cynnwys Ymyriadau Hylendid Bwyd / Adroddiadau Arolygu, Cwynion Bwyd a Sefydliadau Bwyd, Cyngor i Fusnesau, Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd, Samplo Hylendid Bwyd a Chyswllt. Darparodd Swyddogion fanylion am y meysydd i'w gwella, a oedd yn cynnwys Awdurdodaeth Swyddogion, Amlder Ymyrraeth Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd, Ymyriadau Safonau Sefydliadau Bwyd ac Ymyriad Arolygiadau Safonau Bwyd/Adroddiadau Arolygu.

Yn ogystal, nododd y Cabinet, o ran yr Amleddau Ymyrraeth Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd, roedd hyn yn cyfeirio at yr awdurdod yn peidio cynnal ymyriadau hylendid risg bwyd isel a safonau bwyd risg isel a chanolig ar yr amleddau sylfaenol sy'n ofynnol gan Gôd Ymarfer Cyfraith Fwyd. Esboniodd y Swyddogion fod sefydliadau risg isel yn cynnwys Fferyllfeydd neu Dafarndai nad ydynt yn gweini bwyd ayb., a thra bod rhain yn cael eu gwneud, mae rhai achosion lefel uchel wedi cael blaenoriaeth. Serch hynny, sicrhawyd i'r Aelodau, ers yr Archwiliad, fod nifer o sefydliadau ers hynny wedi cael eu hasesu a rhagwelir bydd yr holl sefydliadau risg isel yn derbyn ymweliad erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD fod, ar fodlonrwydd fod y gwasanaeth a ddarperir gydag adnoddau digonol, am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog, rhaid i'r Archwiliad ddarganfyddiadau Asiantaeth Safonau Bwyd gael eu nodi a'r Cynllun Gweithredu arfaethedig gael ei gymeradwyo.

Terfynwyd y cyfarfod am 3.10 p.m.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed Mehefin, 2017.

CADEIRYDD